Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Papur Briffio
# Canlyniad Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd

## Datganiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r papur briffio hwn yn darparu ymateb cychwynnol Cyngor Celfyddydau Cymru i ganlyniad pleidlais Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016. Y mae'n bosibl bod Cymru yn wynebu cyfnod o newid digynsail. Beth bynnag fydd canlyniad y newid hwn, ein bwriad yw gweithio gyda sector y celfyddydau i gael gwell dealltwriaeth o oblygiadau'r newid a chynorthwyo'r sector wrth symud ymlaen.

Mae gan y celfyddydau yng Nghymru draddodiad ers amser o weithio'n rhyngwladol a dathlu'r cyfleoedd a ddaw o gyfnewid diwylliannol rhyngwladol.  Credwn ei bod yn bwysig bod hyn yn parhau. Fel rhan o genedl ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig a rhanbarth Ewropeaidd, mae'r celfyddydau yng Nghymru wedi elwa'n gymdeithasol a diwylliannol o'u cysylltiadau ag Ewrop. Mae Cymru hefyd wedi elwa'n ariannol o fuddsoddiad sylweddol gan gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Dros gyfnod o ddau ddegawd, bu Cyngor Celfyddydau Cymru a'i helfen ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, yn ymgyfranogi o bartneriaethau a chyfnewidiadau diwylliannol rhyngwladol ac Ewropeaidd.  Rydym yn parhau'n argyhoeddedig ynglŷn â gwerth cynnal y cysylltiadau rhyngwladol hyn ba bynnag drefniadau newydd a gytunir.

Yn dilyn canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, y mae'n ymddangos y bydd cyfnod o ansicrwydd yn anochel. Bydd yn cymryd amser i ddeall goblygiadau unrhyw newidiadau a'u heffeithiau yn y tymor hwy. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i hwyluso gwaith rhyngwladol yn y celfyddydau drwy gydweithio, prosiectau, rhwydweithiau a chyfathrebu.  Byddwn hefyd yn datblygu ein partneriaeth â Llywodraeth Cymru, British Council a'n cydweithwyr Ewropeaidd i sicrhau bod artistiaid o Gymru yn parhau'n weledol ar lwyfannau rhyngwladol allweddol.

Byddwn yn parhau i ganfod ffyrdd i gynorthwyo ein hartistiaid pennaf a sefydliadau'r celfyddydau i wireddu eu huchelgeisiau  rhyngwladol drwy archwilio marchnadoedd rhyngwladol newydd a chysylltu â phartneriaid newydd.  Drwy Fforwm Celfyddydau Ewropeaidd Cymru (a fydd yn cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth 6 Medi 2016) byddwn yn pwyso a mesur y sefyllfa ac yn cynghori cleientiaid Portffolio Celfyddydol Cymru ac eraill yn y sector ynglŷn â'r datblygiadau sydd ar y gweill.

Yn y cyfamser, byddwn yn casglu gwybodaeth drwy gyfrwng arolwg i'n cleientiaid a'r sector yn ehangach.  Bydd hyn yn helpu i asesu beth gallai effaith gadael yr Undeb

Ewropeaidd olygu. Ein nod yw adrodd yn ôl yn Fforwm Celfyddydau Ewropeaidd Cymru ym mis Medi 2016.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Mehefin 2016

## Dadansoddi'r goblygiadau posibl

Y mae'n rhy gynnar i ddweud yn union sut gallai'r celfyddydau gael eu heffeithio. Hyd nes bod trafodaethau'n cychwyn, ni wyddom ba oblygiadau fydd i'r celfyddydau, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Ond mae'r nodiadau sy'n dilyn yn crynhoi rhai o'r materion perthnasol y bydd angen eu hystyried yn awr.

<u>Beth sy'n digwydd yn awr?</u>
Yn dilyn penderfyniad y Refferendwm, bydd yn rhaid i weithrediadau o dan Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd gael eu lansio. Mae hyn yn paratoi'r ffordd i'r Deyrnas Unedig dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd. Y mae angen i'r trafodaethau hyn gael eu cwblhau o fewn cyfnod y ddwy flynedd.

Yn dilyn hysbysiad gan y Deyrnas Unedig o'i bwriad i adael, bydd y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno ar ganllawiau i'r trafodaethau. Yn ystod y trafodaethau o dan Erthygl 50, bydd Cytuniadau a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig.

Pe na cheir cytundeb o fewn 2 flynedd i'r Deyrnas Unedig ysgogi Erthygl 50, byddai'n rhaid i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd heb fod unrhyw gytundeb newydd yn ei le.

<u>Mynediad at gyllid Ewropeaidd</u>
Bu Cymru yn fuddiolwr net o gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Mae rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2014-2020 yng Nghymru yn ymrwymo mwy na £58 miliwn i sefydliadau'r trydydd sector (gan gynnwys y celfyddydau). Diben y cyllid hwn yw mynd i'r afael â thlodi yn y cymunedau tlotaf yng Nghymru, gan gynnwys cynyddu sgiliau a datblygu mentrau cymdeithasol. Mae grwpiau'r celfyddydau hefyd yn derbyn cyllid o amrywiaeth o raglenni cyllido eraill yr Undeb Ewropeaidd sydd ar gael i Gymru.

Mae gan nifer o sefydliadau geisiadau cyllido ar y gweill (gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru). Mynegwyd pryder ynglŷn â'r rhagolygon o lwyddo.

Dyma'r llinell swyddogol.

Bydd y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn gymwys i allu arwain ceisiadau am gyllid yr Undeb Ewropeaidd, neu bod yn bartner ynddynt – p'un ai ar gyfer Horizon 2020, Interreg, Erasmus+, Ewrop i Ddinasyddion neu Ewrop Greadigol. Dylai hyn bara hyd at ddiwedd y cyfnod o 2 flynedd a fydd yn cychwyn pan fydd llywodraeth y Deyrnas Unedig

yn ysgogi Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cychwyn y cloc ar drafodaethau ymadael, y bydd yn rhaid eu cwblhau wedyn o fewn dwy flynedd.

Mynediad i farchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd

Gwerth y diwydiannau creadigol i economi'r Deyrnas Unedig yn 2013/14 oedd £84.1bn a thyfodd gan 8.9% – bron i ddwbl cyfradd yr economi cyfan. Ar hyn o bryd, Ewrop yw'r farchnad allforio fwyaf i'r diwydiannau creadigol, sy'n cymryd 57% o'r holl fasnach tramor.

Y mae'n anodd hyd yn oed i'n gweithwyr creadigol gorau yng Nghymru ennill bywoliaeth hyfyw drwy eu gwaith yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn unig. Dros y pum mlynedd diwethaf, bu Cyngor Celfyddydau Cymru yn chwarae rhan weithgar wrth helpu i agor y ffordd i farchnadoedd newydd yn Ewrop a'r byd i artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau o Gymru – mae bywoliaeth pobl yng Nghymru yn dibynnu ar hyn. Awn â dirprwyaeth o amgylch y byd yn rheolaidd, gan gynnwys i bencadlys yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel. Nid mater o ddysgu sut i gael mynediad at gyllid yn unig yw hyn; y mae hefyd yn golygu datblygu cysylltiadau Ewropeaidd, gwella ein deallusrwydd busnes a dysgu sut i gydweithio'n effeithiol y tu hwnt i'n ffiniau.

Ni wyddom sut bydd y ffactorau ymarferol o weithio ar draws Ewrop yn cael eu heffeithio yn y dyfodol. Gallai teithio ar draws Ewrop fod yn fwy cymhleth os yw'r trefniadau teithio di-fisa yn newid. Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau ynglŷn â rhyddid i symud (gweler isod).

Rhyddid i symud / mudoledd artistiaid

Mae cryfder ac amrywiaeth y celfyddydau yn dibynnu ar ryddid i gyfnewid syniadau, doniau a chreadigrwydd. Mae rhyddid i symud ar draws yr Undeb Ewropeaidd wedi helpu'r Deyrnas Unedig i fod yn gryfach yn greadigol ac yn fwy deinamig.

Y mae Ewrop yn ffynhonnell o ddoniau allweddol i amrywiaeth eang o gwmnïau. Er enghraifft, mae cwmnïau cenedlaethol megis Opera Cenedlaethol Cymru, y Cwmni Dawns Cenedlaethol a National Theatre Wales yn cyd-gynhyrchu'n rheolaidd â phartneriaid Ewropeaidd, gydag unrhyw gynyrchiadau yn aml yn cyflogi unigolion creadigol o lawer o wledydd Ewropeaidd. Cawn ein cyfoethogi gan amrywiaeth yr arfer o gyfnewid diwylliannol a'n cryfhau gan symudiad doniau ar draws Ewrop. Bydd cynnal y rhwyddineb hwn i symud o dan drefniadau newydd yn bwysig i lawer o sefydliadau'r celfyddydau.

Rheolau a Rheoliadau Traws-Ewropeaidd

Bydd llawer o reoliadau Ewropeaidd yn parhau i effeithio arnom hyd yn oed pe byddem y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd angen inni ganfod ffyrdd i osgoi colli

ein gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau rheoleiddiol a allai effeithio ar fasnachu yn y dyfodol, megis y trafodaethau presennol ynglŷn â chreu'r Farchnad Sengl Ddigidol. Mae nifer o gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn helpu i ddiogelu materion pwysig megis eiddo deallusol. Pe câi diogelwch eiddo deallusol ei leihau, gallem weld hyfywedd/cryfder ein diwydiannau creadigol yn gwanhau.

Prifddinas Diwylliant Ewrop

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gwahodd dinasoedd y Deyrnas Unedig i ymgeisio am deitl Prifddinas Diwylliant Ewrop 2023. Mae nifer o ddinasoedd y Deyrnas Unedig eisoes wedi dechrau ar baratoadau, a bu Caerdydd yn ystyried p'un a fydd yn cyflwyno cais neu beidio. Menter sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd yw Prifddinas Diwylliant felly anodd bellach yw dychmygu sut gall y gwahoddiad hwn sefyll os nad yw'r Deyrnas Unedig mwyach yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd erbyn diwedd y degawd.

Y mae cynsail i ddinasoedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd fod yn Brifddinasoedd Diwylliant, fel yn achos Bergen (Norwy) ac Istanbwl (Twrci). Ond ym mhob un o'r achosion hyn roedd y dinasoedd mewn gwledydd sydd naill ai'n rhan o'r farchnad sengl neu'n wledydd sydd wedi gwneud cais i fod yn aelod. Nid dyma fydd y sefyllfa yn achos y Deyrnas Unedig.

Cyfraddau cyfnewid

Yn uniongyrchol wedi pleidlais y Refferendwm, gwelwyd anwadalrwydd sylweddol yng nghyfraddau cyfnewid arian cyfred. Yn amlwg, amhosibl yw rhagweld a fydd hyn yn parhau, ac ar ba bwynt y bydd y cyfraddau cyfnewid yn sefydlogi. Yn y tymor byr, mae'r gostyngiad yng ngwerth y Bunt mewn perthynas â'r Ewro a'r Ddoler yn golygu y bydd y costau i artistiaid a chwmnïau o'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio yn America ac Ewrop wedi cynyddu'n sylweddol.

Math gwahanol o berthynas â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd ail-drafod ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn gymhleth ac yn mynd ag amser, heb gynsail i'n harwain. Mater i'r Llywodraeth yw hyn.

Mae amrywiaeth o fodelau gwahanol yn bosibl. Mae rhai o'r modelau a drafodir amlaf yn cynnwys:

- model Norwy – petaem yn dilyn y llwybr hwn, gallai llawer o'r trefniadau ariannu presennol gael eu cynnal. Mae Norwy yn gymwys i geisio am gyllid yr Undeb Ewropeaidd fel partner arweiniol neu gydweithydd yn achos y rhan fwyaf o gronfeydd trawswladol. Ond mae hyn yn wir am fod Norwy yn aelod swyddogol o'r farchnad sengl ac yn talu tua'r un faint y pen ag mae'r Deyrnas Unedig. Y mae hefyd yn derbyn rhyddid gweithwyr yr Undeb Ewropeaidd i symud.

- model y Swistir – yn gyfnewid am fynediad rhannol i'r Farchnad Sengl, mae'r Swistir yn derbyn rhyddid pobl i symud, yn cyfrannu at wariant yr Undeb Ewropeaidd ac yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o reolau'r Farchnad Sengl.  Nid oes gan y Swistir unrhyw bleidlais na feto ar sut caiff rheolau'r Farchnad Sengl eu gwneud.

- graddau o wahaniad – nid oes mwy neu lai'r un wlad arall yn Ewrop sydd heb unrhyw drefniadau â'r Undeb Ewropeaidd – y mae Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir naill ai'n aelodau o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA).  Ac mae gwledydd y Balcanau a Thwrci wedi ymrwymo i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ar ryw bwynt yn y dyfodol.

Os na all trefniadau gael eu rhoi yn eu lle, bydd y Deyrnas Unedig wedyn yn dibynnu ar ei haelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd i ddarparu telerau ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd.  Nid oes gofyn i wledydd Sefydliad Masnach y Byd gyfrannu at gyllideb yr Undeb Ewropeaidd na derbyn rhyddid pobl i symud. Ond, o dan y model hwn, byddai mynediad y Deyrnas Unedig i'r Farchnad Sengl yn destun yr un tariffau masnach ar nwyddau sy'n cael eu hallforio â'r 161 o aelodau eraill Sefydliad Masnach y Byd.

<u>Math gwahanol o berthynas ag Ewrop</u>
Fel sydd wedi'i nodi'n aml, nid yw'r Undeb Ewropeaidd yn golygu'r un peth ag Ewrop. Bydd artistiaid a gweithwyr creadigol proffesiynol yn dal i fod eisiau cynnal cysylltiadau a pherthnasau sydd wedi'u datblygu dros lawer o flynyddoedd. Mae'r reddf greadigol yn un sy'n gwerthfawrogi cydweithio a chydweithredu, ac mae artistiaid yn gweithio gyda'i gilydd yn naturiol waeth beth yw'r ffiniau.

Rydym yn byw mewn byd byd-eang ac mae'r Deyrnas Unedig yn aelod gwleidyddol neu fasnachol o ryw 60 o gyrff traws-wladol neu ryngwladol.

Y mae hyn hefyd yn wir yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Mae ar Gymru angen y fath aelodaeth a pherthynas, a gallant weithredu ar wahân ac yn annibynnol ar ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

<u>Ail-lunio perthynas Cymru â Llywodraeth y Deyrnas Unedig</u>
Cyfeiriodd rhai sylwebwyr at y sicrwydd a roddwyd ynglŷn ag ailddyrannu cronfeydd a dalwyd yn flaenorol gan y Deyrnas Unedig i Ewrop. Galwodd Llywodraeth Cymru am sicrwydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd y cronfeydd hyn yn parhau i fod ar gael i Gymru. Galwodd am ailddrafftio Fformiwla Barnett yn sylweddol. Y mae'n bwysig sicrhau bod buddsoddiad yn parhau.

Mewn araith gan Brif Weinidog Cymru ar ddydd Gwener 24 Mehefin 2016, amlinellodd chwe blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru:

1. Diogelu swyddi a hyder economaidd
2. Chwarae rhan lawn mewn trafodaethau ar ymadael â'r Undeb Ewropeaidd
3. Cynnal mynediad at farchnad sengl Ewrop
4. Trafod sut i barhau i fod yn rhan o raglenni cyllido mawr yr Undeb Ewropeaidd, megis rhai ar gyfer ffermio ac ardaloedd tlotach
5. Adolygu fformiwla gyllido'r Trysorlys ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru
6. Gosod y berthynas rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth y Deyrnas Unedig ar "sylfaen gwbl wahanol".

Cefnogwn y nodau hyn.

## Gweithio tuag at ddyfodol gwahanol

Galwad i weithredu: ymgysylltu â phobl Cymru
Dangosodd pleidlais y Refferendwm batrymau pleidleisio gwahanol ar sail rhanbarth, oedran, a chefndir economaidd-gymdeithasol ledled Cymru. Y mae perygl go iawn y caiff holltau pellach eu hamlygu yn dilyn canlyniad y Refferendwm, gan gynnwys holltau yn seiliedig ar ethnigrwydd a statws ymfudo.

Ar ba bynnag ochr o'r ddadl y mae rhywun, bydd gan y celfyddydau yn gyfunol rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau anodd hyn.

Mae ein safbwynt yn amhleidiol. Ond credwn y gall y celfyddydau chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r gymdeithas ranedig y mae'n ymddangos sydd bellach yn ein hwynebu. Ac mae gennym gyfrifoldeb i weithio hyd yn oed yn galetach i roi llais i bob cymuned oddi mewn i'r gymdeithas yng Nghymru. Mae'r celfyddydau yn ein helpu i ddeall gwahaniaeth. Ond y maent hefyd yn ein helpu i archwilio a chyfleu ein dynoliaeth gyffredin, ein lle yn y byd. Maent yn ein helpu i fynegi'r hyn sy'n nodedig ac unigol, yn ogystal â'r hyn sy'n ein huno ac yn ein clymu wrth ein gilydd.

Y mae'n amlwg bod Cymru'n newid, ac yn newid yn gyflym. Y mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Y mae'n gymdeithas sy'n cofleidio cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth, lle bynnag y mae i'w ganfod mewn hil, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd. Caiff ein diwylliant ei gyfoethogi a'i ehangu gan amrywiaeth.

A dewch inni gofio – artistiaid nid sefydliadau sy'n creu celf.

Yr artist, wrth gyfarch y byd yn ei obeithion a'i ofidion, yn ei newidiadau a'i aflonyddwch, sy'n ailddyfeisio mynegiant diwylliannol sy'n briodol i'r oes. Dewch inni gefnogi ein hartistiaid i ymestyn allan ac ymgysylltu mor llawn ac mor gynhwysol ag y gallant.

---

**Isod mae dolenni i rai ymatebion eraill i ganlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd:**

Ymateb Llywodraeth Cymru
Ymateb y British Council
Papur trafod British Council
British Council

Ymateb Creative Scotland
Ymateb Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol
Ymateb Crafts Council
Ymateb Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru
Papur Briffio Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Culture Action Europe
Ymateb IETM
Ymateb Sefydliad Diwylliannol Ewrop